Gwasanaethau Corfforaethol ac Arolygiaethau
Corporate Services and Inspectorates

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

23 Medi 2024

Annwyl Mr Isherwood

**Partneriaethau Lleol LLP**

Ymhellach i'r sesiwn dystiolaeth ar 12 Mehefin 2024, rwy'n ysgrifennu atoch i roi rhagor o wybodaeth ichi fel y cytunwyd:

**1. Cadarnhad a wnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad ar benderfyniad neu wneud unrhyw gyhoeddiad o'i phenderfyniad i gaffael buddiant yn Partneriaethau Lleol LLP, ynghyd â manylion am hynny a'r penderfyniad.**

Nid oedd adroddiad ar benderfyniad yn gysylltiedig â phenderfyniad Llywodraeth Cymru i gaffael daliant o 5% yn Partneriaethau Lleol LLP (Partneriaethau Lleol).

Gwnaed y penderfyniad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar 15 Mehefin 2017. Derbyniwyd Llywodraeth Cymru yn aelod o'r cwmni ar 22 Ionawr 2018.

**2. Eglurder ynghylch nifer y staff Partneriaethau Lleol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, ac o'r rhai hynny, faint sy'n gweithio, neu sydd wedi gweithio, ar brosiectau gyda Llywodraeth Cymru.**

Mae 14 o staff Partneriaethau Lleol yn byw yng Nghymru, ac mae 13 ohonynt yn gweithio, neu wedi gweithio, ar brosiectau gyda Llywodraeth Cymru. Swyddog cymorth gweithredol nad yw'n wynebu cleientiaid yw'r un aelod o staff sydd heb weithio ar brosiectau gyda Llywodraeth Cymru.

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 03000 257829
Tim.Moss@gov.wales

**3. Rhestr o'r holl gontractau unigol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi i Partneriaethau Lleol, manylion y gwahanol lefelau o waith sy'n cael eu cyflawni gan y cwmni gyda/ar ran Llywodraeth Cymru, a sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod trefniadau o'r fath yn dryloyw.**

Mae'r rhestr o'r prosiectau cyfredol a gyflawnir gan Partneriaethau Lleol fel a ganlyn:

| Prosiect | Disgrifiad |
|---|---|
| Ynni Cymru | Helpu i gyflwyno'r rhaglen a nodi'r opsiynau i sefydlu Ynni Cymru fel cwmni darparu ynni hyd braich er mwyn cynyddu nifer y prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned ledled Cymru. |
| Y Gwasanaeth Ynni (Twf Gwyrdd Cymru/Llif Prosiectau Buddsoddi Gwyrdd gynt) | Darparu gwasanaeth ymgysylltu strategol sy’n cwmpasu’r pedwar rhanbarth yng Nghymru i holl gyrff y sector cyhoeddus, gan gynnwys y byrddau iechyd a sefydliadau addysg uwch, i ddatblygu prosiectau lleihau carbon, effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio fflyd sy’n cyfrannu at gyflawni targedau'r sector cyhoeddus yng Nghymru mewn perthynas â chyflawni sero net. Yn hyn o beth, mae Partneriaethau Lleol yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid cyflawni eraill Llywodraeth Cymru, yr Ymddiriedolaeth Garbon a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni. |
| Trydan Gwyrdd Cymru (Datblygwr Ynni Adnewyddadwy gynt) | Sefydlu datblygwr sy'n eiddo i'r wladwriaeth yng Nghymru i gyflymu'r gwaith o ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar ystad gyhoeddus ehangach Cymru a gwneud y mwyaf o'u gwerth i bobl Cymru. Roedd y gwaith rhagarweiniol yn cynnwys llunio Achos Busnes Amlinellol ar gyfer fferm wynt Brechfa Dau. |
| Rhaglen Ynni'r Môr | -Datblygu'r trefniadau ar gyfer rheoli'r Her Môr-lynnoedd Llanw.<br>-Gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Port Talbot a Doc Penfro a rhanddeiliaid perthnasol mewn cadwyni cyflenwi er mwyn cefnogi ymdrechion i sicrhau bod y diwydiant ffermydd gwynt arnofiol ar y môr sy'n datblygu yn dod â'r manteision mwyaf posibl i Gymru.<br>-Gweithio gyda Morlais er mwyn cefnogi ei ddatblygiad cynaliadwy parhaus i hwyluso'r gwaith o osod llif o ddyfeisiau ffrwd lanw oddi ar arfordir Ynys Môn. |
| Rhaglen Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol (Rhaglen Caffael Seilwaith Gwastraff gynt) | -Cefnogi'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno'r Rhaglen Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, drwy ddarparu swyddfa cymorth ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau.<br>-Helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni argymhellion Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth ag awdurdodau lleol drwy ddarparu adnodd arbenigol er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli contractau gwastraff bwyd a gwastraff gweddilliol Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat gweithredol yn effeithiol.<br>-Cefnogi'r uchelgais i sicrhau defnydd 'un blaned' o adnoddau a chyflawni carbon sero net erbyn 2050 drwy roi mentrau i fynd i'r afael â deunydd anodd ei ailgylchu ar waith ar y cyd ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, gan gynnwys hwyluso'r broses o symud tuag at gerbydau allyriadau isel iawn ar gyfer casglu sbwriel a deunydd i'w ailgylchu ledled Cymru. |

| | |
|---|---|
| | -Ochr yn ochr â WRAP Cymru, helpu i gyflawni targedau ailgylchu statudol awdurdodau lleol a chyflwyno seilwaith.<br>-Helpu i lywio polisi a'r gofynion o ran seilwaith yn y dyfodol, gan gynnwys asesu effeithiau Masnachu Allyriadau a chyfansoddiad gwastraff sy'n newid a helpu i sicrhau bod seilwaith a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn parhau i gyflawni'r canlyniadau gorau, gan sicrhau bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cael y gwerth gorau am arian.<br>-Cefnogi'r broses o newid i economi gylchol. |
| Model Buddsoddi Cydfuddiannol Canolfan Ganser Felindre | Gweithredu fel 'masnachwr' ym mhroses yr Ymddiriedolaeth o gaffael canolfan ganser newydd Felindre o dan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol, a sicrhau bod buddiannau Llywodraeth Cymru yn cael eu diogelu. |
| Rhaglen Cartrefi Clyd | Gweithredu fel rheolwr y contract ar gyfer contractau Cartrefi Clyd yn ystod cyfnod o symud i drefniadau newydd, gan weithio'n agos gyda'r tîm cleientiaid i gefnogi trefniadau pontio trefnus rhwng contractau presennol a chontractau newydd a helpu i roi'r contract newydd ar waith, ymwreiddio arferion a gweithdrefnau rheoli contract effeithiol ar gyfer y contract newydd, i'w mabwysiadu gan swydd rheolwr y contract barhaol Llywodraeth Cymru, a sicrhau bod y contract Cartrefi Clyd newydd yn cyd-fynd ac yn integreiddio'n briodol â rhaglenni effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd eraill Llywodraeth Cymru. |
| Cynllun Ymaddasu i'r Newid Hinsawdd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Datblygu dull asesu risg a chynllunio mewn perthynas ag ymaddasu i'r newid hinsawdd ar gyfer y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys adolygiad o weithgarwch sylfaenol, a datblygu pecyn cymorth ymaddasu sy'n cynnwys deunyddiau hyfforddi i'w ddefnyddio'n barhaus. |
| Cynllunydd Senario Sero Net | Dadansoddi data sydd ar gael ar adeiladau'r cyngor, goleuadau stryd a'r fflyd i amcangyfrif y gost gyffredinol (wedi'i rhannu yn ôl awdurdod lleol) i ddatgarboneiddio ystad y cyngor ac asedau'r fflyd erbyn 2030 (targed sector cyhoeddus Cymru), datblygu Cynllunydd Senario Sero Net wedi'i safoni ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru i'w ddefnyddio i ymchwilio i'r opsiynau senario ar gyfer cyflawni sero net yn eu gweithrediadau eu hunain erbyn 2030, a darparu adroddiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth derfynol, gan gynnwys data llawn, cyfeiriadau, a chrynodebau. |
| Ffosffadau | Darparu cymorth arbenigol er mwyn i waith allu ailddechrau ar safleoedd tai fforddiadwy segur, neu'r rhai hynny sydd mewn perygl o fod yn segur, o ganlyniad i reoliadau ynghylch effaith ffosffadau mewn afonydd, y gall cynnydd yn y boblogaeth leol yn sgil datblygiad tai newydd ei dwysáu. |
| Cwmni Egino | Cynnal adolygiad o'r hyn a gyflawnwyd a chanfyddiadau rhanddeiliaid allweddol y sefydliad o hynny, yn ogystal â gofyn barn ar yr hyn y gallai ac y dylai rôl y sefydliad fod yn y dyfodol, ar ôl cefnogi Cwmni Egino i fynd i'r afael |

| | |
|---|---|
| | ag anghenion uniongyrchol y cwmni drwy gyflwyno tîm bach o unigolion profiadol i weithio'n rhan-amser ac yn rhithwir, ochr yn ochr â staff Cwmni Egino, a bod yn arweinwyr ffrydiau gwaith ar gyfer sefydlu'r cwmni a'i roi ar waith yn y lle cyntaf, datblygu rhaglenni, a chynllunio a thir. |
| Ansawdd Dŵr | Hwyluso gweithdy deuddydd, a darparu adroddiad cryno dilynol, i lywio'r Rhaglen ar gyfer Dŵr sydd ar ddod. |
| Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy | Adolygu trefniadau llywodraethu presennol y cynllun, ei lwybr hanfodol a'r gwersi a ddysgwyd, i nodi ac uwchgyfeirio materion ac ymgysylltu â pherchnogion cynhyrchion i ddatrys y rhain a chynnig cefnogaeth, rheoli dangosfyrddau adrodd, meithrin a chynnal rhwydweithiau allanol i ddarparu'r arferion proffesiynol gorau, a sicrhau parodrwydd busnes ar gyfer newid yn nhermau polisi a chyflawni gweithredol. |

Darperir rhestr o'r prosiectau a gwblhawyd gan Partneriaethau Lleol yn yr Atodiad. O ran tryloywder, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwariant dros £25,000, gan gynnwys taliadau i Partneriaethau Lleol, ar llyw.cymru (https://www.llyw.cymru/cyhoeddi-gwariant-dros-25000).

**4. Gwybodaeth am gyrff eraill y mae gan Lywodraeth Cymru fuddiant ynddynt ac y mae'n gallu caffael gwasanaethau oddi wrthynt gan ddefnyddio'r 'esemptiad Teckal', ynghyd â gwybodaeth am ei defnydd ohonynt, gan gynnwys gwariant yr aethpwyd iddo, rhestr o gontractau a natur y gwasanaethau/gwaith a gaffaelwyd oddi tanynt. Hefyd, cadarnhad a yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio Gweithred Tendr Sengl i gaffael gwasanaethau o'r fath ac, os felly, manylion am yr achosion y mae wedi gwneud hynny ynddynt.**

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw rhestr ganolog o gyrff y mae'n gallu caffael gwasanaethau oddi wrthynt gan ddefnyddio'r 'esemptiad Teckal' na rhestr o gontractau a gaffaelir drwy'r llwybr hwnnw. O dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, nid yw'r esemptiad yn esemptiad cyffredinol a mater i bob awdurdod contractio yw penderfynu a yw'n bodloni'r amodau a nodir yn rheoliad 12 cyn dyfarnu pob contract i'r esemptiad fod yn gymwys.

At ddibenion caffael, pan fo'r esemptiad Teckal yn gymwys, nid oes gofyniad i Lywodraeth Cymru fynd drwy unrhyw fath o broses gaffael gan gynnwys Gweithred Tendr Sengl.

**5. Sut mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu bod cael gwasanaethau ymgynghori gan Partneriaethau Lleol, yn hytrach nag ymgynghorwyr allanol eraill, yn briodol ar gyfer prosiect, ac a yw'r gallu i ddyfarnu contractau i'r cwmni heb gystadleuaeth yn dylanwadu ar hyn.**

Rhaid i'r holl wariant y mae Llywodraeth Cymru yn mynd iddo, gan gynnwys mewn perthynas â gwasanaethau ymgynghori, gydymffurfio â thelerau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, yn benodol gofynion y Swyddog Cyfrifyddu o ran rheoleidd-dra, dichonoldeb, priodoldeb a gwerth am arian.

Y sawl sy'n dal y gyllideb ddirprwyedig sy'n ystyried yr opsiynau o ran adnoddau ar gyfer prosiectau – os ceir gwasanaethau ymgynghori, byddai ymgynghorwyr sydd ar gael yr ystyrir bod ganddynt y sgiliau a'r profiad sy'n addas ar gyfer gofynion y prosiect yn cael eu penodi.

Er bod y gallu i ddyfarnu contractau i Partneriaethau Lleol heb gystadleuaeth yn gyffredinol yn golygu y gellir cael mynediad at wasanaethau yn gyflymach, a all fod yn ystyriaeth ar gyfer gwaith brys, nid oes unrhyw ragdybiaeth mai'r cwmni fyddai'r opsiwn diofyn a mater i'r sawl sy'n dal y gyllideb ddirprwyedig yw gwneud y penderfyniad sydd fwyaf addas ar gyfer y prosiect ac sy'n cydymffurfio â gofynion y Swyddog Cyfrifyddu.

**6. A allwch egluro'r broses ar gyfer cytuno ar archeb waith ar gyfer prosiect gyda Partneriaethau Lleol, gan gynnwys y sail ar gyfer y gost; a yw'n seiliedig ar gyflawniadau a chanlyniadau penodol.**

Fel arfer, bydd y broses fel a ganlyn:

- Trafodaeth gychwynnol rhwng Llywodraeth Cymru a Partneriaethau Lleol.
- Partneriaethau Lleol yn cyflwyno cynnig sy'n nodi:
  - ei ddealltwriaeth o ofynion Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar y drafodaeth a/neu unrhyw gwmpas ysgrifenedig a ddarperir.
  - y dull y byddai Partneriaethau Lleol yn ei gymryd i fodloni'r gofynion hynny, gan gynnwys camau'r prosiect, a chyflawniadau ac allbynnau penodol.
  - profiad perthnasol Partneriaethau Lleol wrth gyflawni gofynion tebyg i gleientiaid.
  - y personél a'r unigolion allweddol a fyddai'n gyfrifol am ddarparu'r gwaith a'u harbenigedd a'u profiad unigol.
  - y ffi am y prosiect.
- Trafod a mireinio'r cynnig ymhellach er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r gofynion.
- Unwaith y cytunir arni, bydd archeb waith wedyn yn cael ei llofnodi ar gyfer y prosiect.

Bydd y cyflawniadau a'r allbynnau yn benodol i bob prosiect. Bydd y rhain yn cael eu nodi yng nghynnig Partneriaethau Lleol a'u cadarnhau yn yr adran o'r archeb waith sy'n canolbwyntio ar ofynion y gwasanaeth.

Telir costau llafur ar gyfradd ddyddiol, fodd bynnag, bydd Partneriaethau Lleol fel rhan o'r cynnig yn pennu nifer y diwrnodau sydd eu hangen a'r ffi ar gyfer y prosiect. Mae'r cytundeb fframwaith sydd gan Lywodraeth Cymru gyda Partneriaethau Lleol yn sicrhau bod ei wasanaethau'n cael eu cyflawni er boddhad Llywodraeth Cymru fel cleient y ffi y cytunwyd arni ar gyfer y prosiect.

**7. Mae rhai o'r prosiectau y mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio Partneriaethau Lleol ar eu cyfer, megis ar gyfer y Model Buddsoddi Cydfuddiannol a Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru, yn rhychwantu sawl blwyddyn ac yn debygol o barhau yn y tymor hir. Sut mae Llywodraeth Cymru yn ystyried costau hirdymor y prosiectau hyn a phriodoldeb defnyddio ymgynghorwyr yn hytrach na recriwtio Gweision Sifil i'w cyflawni.**

Mae defnyddio ymgynghorwyr yn galluogi Llywodraeth Cymru i fanteisio ar sgiliau a phrofiad arbenigol a/neu gapasiti ychwanegol lle nad yw ar gael yn y gwasanaeth sifil, pan fo angen. Bydd y sawl sy'n dal y gyllideb ddirprwyedig yn ystyried costau parhaus y prosiect a phriodoldeb defnyddio ymgynghorwyr fesul achos.

Dim ond cyhyd ag y bo angen y defnyddir ymgynghorwyr. Er enghraifft, defnyddiwyd Partneriaethau Lleol i sefydlu strwythurau'r rhaglen Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol yn ystod y pandemig, cyn inni recriwtio gweision sifil i fod yn gyfrifol amdani.

Ar gyfer prosiectau tymor hwy, mae'r gofynion yn newid dros gylch oes y prosiect ac mae'r staff a'r sgiliau y mae Partneriaethau Lleol yn eu darparu yn newid yn unol â hynny. Er enghraifft, mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn cytuno ar gynllun gwaith blynyddol gyda Partneriaethau Lleol i adlewyrchu gofynion sy'n newid, ac mae'r cwmni yn sicrhau bod y cymysgedd o sgiliau staff a ddarperir yn cyflawni gofynion y prosiect bob amser.

Fel cleient, rydym yn gweithio'n agos gyda Partneriaethau Lleol i drosglwyddo sgiliau a gwybodaeth i Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, o fewn Model Buddsoddi Cydfuddiannol y rhaglen addysg bu trosglwyddo gwybodaeth sylweddol rhwng staff Partneriaethau Lleol a swyddogion Llywodraeth Cymru fel bod y rhaglen bellach yn cael ei rheoli'n fewnol. Mae Partneriaethau Lleol hefyd wedi datblygu llawlyfr contract y mae timau awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i reoli contractau ar ôl i gymorth y cwmni ddod i ben.

Yn gywir



Tim Moss

Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredol
Llywodraeth Cymru

Director General and Chief Operating Officer
Welsh Government

Atodiad – Rhestr o'r Prosiectau a Gwblhawyd gan Partneriaethau Lleol:

| Prosiect | Disgrifiad |
|---|---|
| Model Buddsoddi Cydfuddiannol Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Rhaglen Ysgolion yr 21G gynt) | Darparu Cyfarwyddwr Rhaglen ac arbenigedd masnachol, ariannol a chaffael i arwain y gwaith o ddatblygu'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol, caffael a sefydlu'r partner strategol (WEPCo Ltd) a datblygu a chaffael y prosiect braenaru hyd at y cam ariannol. |
| Model Buddsoddi Cydfuddiannol Ffordd Blaenau'r Cymoedd yr A465 | Darparu Cyfarwyddwr Rhaglen i arwain y gwaith o gaffael y prosiect hyd at y cam ariannol. |
| Re:fit | Cynnal adolygiadau sicrhau ansawdd o gontractau perfformiad ynni Re:fit yng Nghymru yn ystod camau allweddol o'r prosiect, gan weithio ochr yn ochr â'r gwasanaeth ynni. |
| Grid y Dyfodol | Cefnogi'r broses o gaffael a chomisiynu sefydliad i hwyluso'r gwaith o ddatblygu cynlluniau rhwydweithiau ynni mewn perthynas â'r rhwydweithiau ynni yng Nghymru a rhoi cymorth cyffredinol i'r Pennaeth Cyflenwi Ynni. |
| Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO) 4 | Datblygu templed Datganiad o Fwriad ECO 4 ar gyfer awdurdodau lleol Cymru, a pharatoi adroddiad opsiynau yn ymwneud â chymorth refeniw Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol sy'n prosesu datganiadau ECO4. |
| Sefydlu Unnos | Darparu cymorth i ystyried swyddogaeth Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol, i gefnogi cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy, yn ogystal ag ystyried opsiynau sefydliadol posibl ar gyfer Unnos, a llunio adroddiad byr a oedd yn cynnwys ystyriaeth lefel uchel a chychwynnol o opsiynau o'r fath, ar gyfer symud ymlaen i arfarniad opsiynau mwy ffurfiol fel y cam nesaf. |
| Adolygiad o Argyfyngau Sifil Posibl | Adolygu trefniadau llywodraethu, drwy gynnal arolygon a chyfweliadau gyda rhanddeiliaid, adolygu pob maes o argyfyngau sifil posibl a chynllunio at argyfyngau ledled Cymru, adolygu modelau a ddefnyddir mewn gwledydd eraill, cynnal gweithdai gyda Fforymau Lleol Cymru Gydnerth ac adrodd ar ganfyddiadau'r adolygiad. |
| Cefnogi'r Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan | Datblygu modelau technegol o ofynion ynni ar gyfer safleoedd penodol sy'n ymwneud â ffrwd waith Gwasanaethau Ynni a darparu pecyn cymorth i awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yng Nghymru i'w helpu i ddatgarboneiddio eu fflyd a defnyddio Cronfa Grant Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. |
| Prif Negodydd Contractwyr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol | Rheoli trafodaethau mewn cysylltiad â dechrau'r ateb indemniad a gefnogir gan y wladwriaeth ar gyfer contractwyr Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol yng Nghymru, yn benodol trosglwyddo asedau ac atebolrwyddau oddi wrth y Sefydliadau Amddiffyn Meddygol sy'n ymwneud â'r cynllun atebolrwyddau presennol. |
| Cynllunio Cyfalaf Strategol ar gyfer Gofal Integredig | Datblygu meini prawf ar gyfer Canolfan Iechyd Integredig a Hyb Gofal Cymdeithasol, cynnal ymarfer mapio i nodi Hybiau presennol, datblygu canllawiau ar y broses gynllunio strategol y gofynnwyd i'r Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol ymgymryd â hi a hwyluso gweithdai ar hyn ar gyfer pob un o'r Byrddau. Darparu cymorth ychwanegol o ran integreiddio |

| | |
|---|---|
| | gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai ac ymgysylltu â'r Byrddau. Datblygu achos busnes amlinellol, diffinio'r model cyllido a'r cynigion gweithredu, a pharatoi gwerthusiad, canllawiau a nodiadau gweithredu i alluogi'r model cyllido i fynd yn fyw. |
| Ymchwilio i'r Sector Rhentu Preifat | Casglu tystiolaeth feintiol ac ansoddol drwy ymchwil desg a maes a sefydlu pa daliadau diofyn y codwyd ar denantiaid, er mwyn llywio trafodaethau Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid a gefnogir gan gynigion a chwestiynau cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth. |
| Cydweithio ar Eiddo | Darparu adroddiad cwmpasu i nodi rhwystrau, yn rhai gwirioneddol ac yn ganfyddedig, i gydweithio ar eiddo ac asedau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru gyda'r bwriad o nodi rhagor o waith y gellir ei wneud i liniaru a dileu'r rhwystrau hyn. Roedd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn trafodaethau â rhanddeiliaid fel Darparwyr Cofrestredig a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n cyd-fynd â menter Ystadau Cymru. |
| Adolygiad Gwybodeg Iechyd | Cynnal adolygiad gyda system sy'n gallu cyflawni dyheadau Iechyd a Gofal Gwybodus. Roedd y gwaith hwn yn ystyried gofynion y system gyfan (ac eithrio swyddogaethau cefn swyddfa), sut mae'r swyddogaethau hyn yn cael eu cyflawni orau drwy'r gwahanol sefydliadau a strwythurau rhanddeiliaid, a pha arweinyddiaeth, trefniadau llywodraethu a pherthnasoedd sydd angen bod ar waith i gyflawni gwelliannau ar draws y system. |
| Adolygiad o Awdurdod Harbwr Caerdydd | Adolygu'r trefniant cyllido ar gyfer yr awdurdod, ei weithgareddau a'i drefniadau llywodraethau, gan gynnwys cynnal adolygiad ariannol a gwerth am arian. |
| Achos Busnes ar gyfer Platfform Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys (ESMCP) | Llunio crynodeb annibynnol o Achos Busnes Terfynol ESMCP o safbwynt annhechnegol a safbwynt penodol Llywodraeth Cymru. |
| Cefnogi Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) | Arwain ar swyddogaeth ddylunio ACC gyda Llywodraeth Cymru, darparu cefnogaeth ychwanegol o fewn yr Adran Strategaeth, gan sicrhau parhad y gwasanaeth. |
| Y Bil Trafnidiaeth | Darparu cymorth i reoli'r prosiect, gan gynnwys monitro ac adrodd ar gynnydd a phryderon, sicrhau trefniadau llywodraethu da, rheoli risgiau'r prosiect, gorfodi prosesau rheoli ansawdd a newid, datblygu sesiynau briffio a deunydd cyfathrebu, a sicrhau bod cofnodion yn cael eu rheoli'n briodol. |
| Broceriaeth Cadwyn Gyflenwi ar gyfer Datgomisiynu Niwclear | Gweithio'n agos gyda'r Uwch-swyddog Cyfrifol, swyddogion perthnasol a chynghorwyr trydydd parti i ddarparu astudiaeth ddichonoldeb sy'n edrych ar hyfywedd datblygu Gwasanaeth Broceriaeth ar gyfer Datgomisiynu Niwclear, gan ganolbwyntio ar y cyfleoedd economaidd a ddarperir gan safle gorsaf bŵer Trawsfynydd ac ystyried cyfleoedd ehangach ledled Cymru a'r DU. |
| Rhaglen Datblygu Trawsfynydd | Cefnogi'r gwaith o reoli'r rhaglen yn ystod y cyfnod pontio, lle trosglwyddwyd cyfrifoldeb dros gyflawni i Gwmni Egino, er mwyn cynnal momentwm a chynnydd, gan sicrhau trosglwyddiad llyfn ac nad yw Llywodraeth Cymru yn agored i risg amhriodol neu ormodol. |

| | |
|---|---|
| Achos Busnes Cyfleuster Profi Hydrolig Thermol Cenedlaethol | Cefnogi'r gwaith o ddatblygu Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y cyfleuster profi yn y Gogledd, a llunio dogfen gyfunol sy'n mynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn y ddau Achos Busnes Amlinellol presennol a luniwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gan drydydd parti. |
| Cefnogi Cwmpas 3 | Ymgysylltu â staff mewn cyrff cynrychioliadol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i ddatblygu polisïau, mecanweithiau neu lwybrau strategol ar gyfer datgarboneiddio prosesau caffael, rhoi opsiynau i'r sector ar gyfer sut y gallai polisi ac ymarfer esblygu yn y maes hwn, atgyfnerthu canllawiau presennol a datblygu deunydd newydd i gefnogi datgarboneiddio prosesau caffael, gyda'r nod o lunio 'map ffordd' hyd at 2030 ar sut y gall y sector ddatgarboneiddio ei brosesau caffael, a dosbarthu'r map ffordd i'r sector, sy'n rhad ac am ddim i'w ddefnyddio. |